
# Amcanion amgylcheddol 2022/2025

## Amcan amgylcheddol 1 – datgarboneiddio

### *Yr hyn i'w gyflawni – Lleihau allyriadau carbon*

Sut: Bydd Rhaglen Adfywio CNC yn gwneud y canlynol:

- Sefydlu strategaeth ddatgarboneiddio ac ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd sy'n cynnwys ymrwymiad i drosglwyddo o ddefnyddio tanwyddau ffosil ar gyfer gwresogi ein swyddfeydd, ynghyd â chynllun cyflawni deng mlynedd cysylltiedig (yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael).
- Yn 2022/23, trawsnewid storfa danwydd swmp CNC, gan ei hehangu os oes angen, i gadw olew llysiau hydrogenaidd a'i ystyried yn danwydd pontio ar gyfer cerbydau a pheiriannau hyd nes y bydd modelau allyriadau isel iawn ar gael.
- Erbyn 2026, cael ateb llawn i sefydlu seilwaith gwefru cerbydau trydan (yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael) i ganiatáu trosglwyddo ceir a faniau i gerbydau electrig.
- Yn 2022/23, cyflwyno system o adroddiadau yn ymwneud â gwybodaeth i reolwyr a fydd yn caniatáu i reolwyr gael y ddealltwriaeth angenrheidiol o'u milltiroedd a'r allyriadau carbon deuocsid cysylltiedig, a chaniatáu gosod nodau ystyrlon a chyraeddadwy i ostwng y milltiroedd maent yn eu gyrru yn 2023/25.
- Yn 2022/23, cynnal astudiaeth ddichonoldeb o ffyrdd eraill o ddarparu cerbydau gyda'r nod o ddibynnu llai ar gerbydau fflyd â bathodyn a cherbydau fflyd y gronfa.
- Bydd proses gaffael CNC hefyd yn asesu effeithiau carbon ar ein contractau a'n fframweithiau risg uchel, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwerthuso fel rhan o'r broses dendro ac y cânt eu monitro wrth reoli contractau er mwyn cael data sylfaenol.




**Gwybodaeth sylfaenol:**

**Rhwng 2013 a 2021, rydym eisoes wedi lleihau allyriadau adeiladau a theithio CNC 62%**

## Amcan amgylcheddol 2 – datblygu i fod yn sefydliad rhagorol

### *Yr hyn i'w gyflawni – Cynllun Teithio Llesol a Chynaliadwy ar gyfer CNC*

Sut: Bydd Grŵp Teithio Llesol CNC yn datblygu mecanweithiau ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy er mwyn sicrhau y caiff ei ddewis gan gymudwyr CNC ac ar gyfer teithiau busnes priodol

- Bydd teithio llesol a chynaliadwy yn ystyriaeth allweddol yn Rhaglen Adfywio CNC, â'r nod o leihau allyriadau cymudo yn sylweddol drwy weithio ystwyth a gweithio gartref.
- Cynnal ac ehangu ein hachrediad "Cyflogwr Sy'n Gyfeillgar i Feicwyr", gan gynnwys tri safle ychwanegol erbyn 2025.
- Gwella cyfleusterau storio beiciau a newid yn swyddfeydd CNC.
- Helpu eraill y tu allan i'r sefydliad i ddefnyddio teithio llesol a chynaliadwy i ymweld â safleoedd CNC drwy ddarparu gwybodaeth am y llwybrau a chyfleusterau teithio i safleoedd penodol yn y swyddfeydd.
- Chwarae rhan weithredol mewn Siarteri Teithio Iach rhanbarthol, gan ddylanwadu ar CNC a sefydliadau partner i ystyried blaenoriaethau'r Datganiadau Ardal ac i hyrwyddo dull o deithio llesol a chynaliadwy sy'n seiliedig ar natur.



**Gwybodaeth sylfaenol:**

**Rydym wedi ennill achrediad Lefel Aur Cyflogwr sy'n Gyfeillgar i Feicwyr y DU (CFE-UK) ar gyfer Maes y Ffynnon, Maes Newydd, Trefynwy, a gwasanaethau dadansoddol CNC**

**Rydym wedi ennill achrediad Lefel Efydd CFE-UK ar gyfer Tŷ Cambria a Phlas yr Afon**

## Amcan amgylcheddol 3 – lleihau gwastraff

***Yr hyn i'w gyflawni - Datblygu i fod yn sefydliad sy'n arwain y ffordd ym maes rheoli gwastraff drwy ymgorffori egwyddorion yr hierarchaeth gwaredu gwastraff a'r economi gylchol yng ngwerthoedd craidd CNC i ddylanwadu ar leihau'r gwastraff a gynhyrchir o ganlyniad i'n gweithgareddau busnes. Sicrhau bod atal gwastraff yn cael ei flaenoriaethu a, lle y defnyddir deunyddiau, cânt eu defnyddio am gyhyd ag y bo modd, gan gael y gwerth mwyaf posibl cyn cyrraedd diwedd eu cylch oes, gan gyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.***

Sut: Fel sefydliad, mae gennym lawer o gyfrifoldebau amrywiol, felly rydym yn creu gwastraff drwy weithgareddau busnes eang, gan gynnwys prosiectau untro ar raddfa fawr, gwaith cyflenwi gweithredol, prynu nwyddau a gwasanaethau, rhedeg ein canolfannau ymwelwyr ac eraill. Bydd tîm y prosiect lleihau gwastraff yn ceisio lleihau cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir gennym o ganlyniad i'r gweithgareddau hyn.


- Alinio â strategaeth Mwy nag Ailgylchu Llywodraeth Cymru drwy geisio sicrhau dyfodol diwastraff i safleoedd tirlenwi erbyn 2025.
- Asesu effeithiau gwastraff yn strategol drwy ddefnyddio dull rheoli categorïau caffael CNC a datblygu egwyddorion yr economi gylchol mewn gweithgarwch caffael, h.y. nodi dim defnydd o blastigau untro yn ein dogfennau tendro.
- Yn 2022/23, gwella cyfraddau gwahanu ac ailgylchu gwastraff er mwyn sicrhau bod y sefydliad cyfan yn cydymffurfio â Rheoliadau Ailgylchu Safleoedd Annomestig Llywodraeth Cymru, cyn iddynt ddod i rym yn 2023.
- Pan fydd prosiect yn cychwyn, gweithio gyda phrosiectau seilwaith ar raddfa fawr i ddylanwadu ar leihau gwastraff a sefydlu egwyddorion economi gylchol.
- Datblygu canolfannau ymwelwyr CNC i arwain y ffordd o ran lleihau gwastraff drwy wahanu gwastraff yn y tarddle a lleihau gwerthiant nwyddau untro, e.e. dŵr potel.
- Yn 2022/23, nodi faint o offer TGCh sy'n dod i ddiwedd ei oes ac ymchwilio i opsiynau lleihau gwastraff ac economi gylchol er mwyn sicrhau bod eitemau'n cael eu hailddefnyddio a'u hailgylchu.
- Yn 2022/23, nodi faint o blastig untro sy'n cael ei ddefnyddio ac ymchwilio i opsiynau lleihau gwastraff ac economi gylchol yn labordy dadansoddol gwasanaethau dadansoddol Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Datblygu polisi economi gylchol a lleihau gwastraff mewnol a chodi ymwybyddiaeth o'r egwyddorion a sut y maent yn cyfrannu'n uniongyrchol at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy o fewn y sefydliad.

**Gwybodaeth sylfaenol: Anfonodd CNC 90 tunnell o wastraff swyddfa i safleoedd tirlenwi yn 2019/20**

## Amcan amgylcheddol 4 – rheoli tir a dŵr yn gynaliadwy yng Nghymru

***Yr hyn i'w gyflawni – CNC i gynnal y cynllun ardystio coetiroedd (Safon Sicr Coetiroedd y DU (UKWAS)) ar gyfer y rhan o Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru yr ydym yn ei rheoli***

Sut: Bydd rheolwr ardystio CNC ar gyfer UKWAS a'r tîm system reoli amgylcheddol (EMS) yn datblygu rhaglen archwilio fewnol i gynnal o leiaf wyth archwiliad mewnol i sicrhau ein bod yn cydymffurfio ag UKWAS a dileu'r holl geisiadau am gamau unioni (CAR) sy'n codi mewn archwiliadau allanol a mewnol a gochel rhag bod arsylwadau'n cael eu datblygu i fod yn gamau unioni.







**Targed o ddim un CAR mawr yn 2022**

**Gwybodaeth sylfaenol:**

**Mae ceisiadau am gamau unioni ac arsylwadau a godwyd mewn archwiliadau allanol 2018/21 wedi lleihau ers cyflwyno rhaglen archwilio fewnol yn 2018**